COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 20 AWST 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | NA Burnett | RJ Collins | SK Dendy |
| DK Edwards | RM Granville | MJ Kearn | JC Radcliffe |
| JC Spanswick | RME Stirman | MC Voisey | KJ Watts |
| CA Webster | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DRW Lewis a/ac JE Lewis

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gareth Denning | Arweinydd Tîm Polisi |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Adam Provoost | Uwch Swyddog Cynllunio Datblygu |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |

393. DATGANIADAU BUDDIANNAU

Dim.

394. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dyddiedig 23 Gorffennaf 2020, yn gofnod gwir a chywir.

395. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus.

396. TAFLEN DDIWYGIADAU

PENDERFYNWYD: Derbyniodd y Cadeirydd Daflen Ddiwygiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor, fel bod y Pwyllgor yn gallu ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried cynrychiolaethau a diwygiadau hwyr y mae'n ofynnol rhoi sylw iddynt.

397. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Bod y crynodeb o Ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y'i manylir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn cael ei nodi.

398. P/19/915/RES – TIR I'R GORLLEWIN O MAESTEG ROAD, TON-DU, CF32 9DF

PENDERFYNWYD: Gohirio'r cais ar gais yr ymgeisydd i roi amser i ddatrys materion sy'n weddill yn ymwneud â'r briffordd.

399. P/19/624/FUL - LLAIN R20, PARC DERWEN, COETY

Cynnig: Adeiladu 102 o anheddau ynghyd â seilwaith a thirweddu cysylltiedig

PENDERFYNWYD: (1) Bod yr ymgeisydd yn llunio Cytundeb Adran 106 i ddarparu cyfraniadau ariannol fel a ganlyn:

i. Darparu cyfraniad ariannol o £228,382 tuag at ddarparu lleoedd ysgol gynradd yn Ysgol Gynradd Coety.

ii. Darparu o leiaf 20% o'r unedau fel tai fforddiadwy, gan gynnwys 7 uned ganolradd ar y safle sy'n destun y cais hwn a 14 uned rhent cymdeithasol yn rhan o'r datblygiad ar y safle Canolfan Ardal (y mae P/19/656/RES yn cyfeirio ato). Bydd y Cytundeb yn cynnwys amserlen ar gyfer darparu a fydd yn gysylltiedig ag adeiladu'r tai marchnad ar Gam R20.

iii. Darparu cyfraniad ariannol o £24,000.00 ar gyfer Gorchmynion Traffig i dalu am gost cyhoeddi'r Gorchmynion ar gyfer y llain hon a datblygu'r Ganolfan Ardal (y mae P/19/656/RES yn cyfeirio ati) cyn i unrhyw ganiatâd gael ei roi.

Bydd y Cytundeb hefyd yn cynnwys Cynllun Rheoli sy'n rhoi manylion cynllun ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r ardaloedd parcio a gwasanaeth cymunedol yn y Datblygiad Canolfan Ardal yn y dyfodol (y mae P/19/656/RES yn cyfeirio ato) i'w gyflwyno gan y cwmni sy'n ymgeisio.

(2) Bod pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i gyhoeddi penderfyniad yn rhoi caniatâd ynglŷn â'r cynnig hwn pan fydd yr ymgeisydd wedi llunio'r Cytundeb Adran 106 a grybwyllwyd uchod, yn ddarostyngedig i amodau yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig hefyd i ddiwygio amod 5 fel a ganlyn:

O fewn 3 mis o ddyddiad y caniatâd hwn, bydd cynllun manwl sy'n cynnwys yr holl eitemau chwarae, gwaith tir cysylltiedig a gwaith tirweddu caled a meddal ar gyfer yr Ardal Chwarae Leol â Chyfarpar arfaethedig ar LEAP 10A ar Gamau R16 a R28, o flaen rhifau 16-22 Llys Ceirios, yn cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cytundeb. Bydd y cynllun, fel y'i cytunwyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cael ei gwblhau a'i ddefnyddio cyn i'r 50fed annedd gael ei meddiannu ar y cam hwn (Llain R20) o'r datblygiad.

Rheswm: Er mwyn amwynderau preswyl meddianwyr yn y dyfodol.

Nodyn: Roedd y Cynghorydd Radcliffe yn dymuno iddo gael ei nodi y byddai wedi pleidleisio dros wrthod ar sail perfformiad blaenorol y datblygwr o ran darparu ardaloedd chwarae, ond ni ellid defnyddio hyn ar y cais hwn.

400. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) PEN-Y-BONT AR OGWR – CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG

Dywedodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu wrth yr Aelodau fod angen diwygio Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol, a gymeradwywyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018, a cheisiodd gymeradwyaeth i ddiwygio'r Amserlen ar gyfer paratoi CDLl yng ngoleuni'r pandemig Covid-19.

Dywedodd fod y Cyngor wedi cael llythyr gan Lywodraeth Cymru ar 7 Gorffennaf 2020 yn ei gynghori i gynnal asesiad o'r sylfaen dystiolaeth dechnegol sy'n sail i'r CDLl amnewid, ochr yn ochr â'r strategaeth a'r polisïau a ffefrir o ystyried canlyniadau'r pandemig. Dywedodd fod y dasg hon wedi cael ei chwblhau a bod y canfyddiadau wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad i'w nodi. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynghori y dylai Cytundebau Cyflawni gael eu haddasu i ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r amserlen CDLl yng ngoleuni oedi a achoswyd gan y pandemig. Dylai hyn hefyd gynnwys diwygiadau i'r Cynllun Cynnwys y Gymuned, o ystyried yr angen i addasu i batrymau gweithio newydd ac ystyried dulliau amgen o ymgysylltu â rhanddeiliaid o ganlyniad i'r angen i gadw pellter cymdeithasol. Amlinellodd y diwygiadau arfaethedig i'r amserlen. Dylai'r Cynllun Adneuo fod yn destun ymgynghoriad rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021 (mis Gorffennaf i fis Awst 2020 yn flaenorol). Caniatawyd ymestyn y cyfnod ymgynghori statudol o 6 wythnos i 8 wythnos er mwyn rhoi mwy o amser i bobl gyflwyno'u safbwyntiau, ar yr un pryd ag ystyried unrhyw gyfyngiadau pellach a orfodir o ganlyniad i'r pandemig. Dywedodd fod oedi canlyniadol o hyd at 6 mis yn debygol cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu'n derfynol, er bod y dyddiadau sy'n ymwneud â'r camau ar ôl cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru yn ddangosol. Amlinellodd sut mae'r Cynllun Cynnwys y Gymuned wedi cael ei ddiwygio i ystyried dulliau gwahanol o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cynnal y mesurau cadw pellter cymdeithasol sy'n debygol o fod yn ofynnol am y dyfodol rhagweladwy.

PENDERFYNWYD: 1. Bod y Pwyllgor yn cytuno â'r diwygiadau i'r amserlen a'r Datganiad o Gynnwys y Gymuned, ac yn awdurdodi Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu – Cymunedau i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig (sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2 yr adroddiad) i'r Cyngor i'w gymeradwyo ac i Lywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor; a

2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud unrhyw gywiriadau ffeithiol neu fân ddiwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni fel yr ystyrir y bo'n angenrheidiol.

401. CYFLWYNO MODEL HYFYWEDD DATBLYGU

Ceisiodd y Prif Swyddog Polisi Cynllunio Strategol awdurdodiad i ymgynghori â'r diwydiant tai a phrofi'r Model Hyfywedd Datblygu (DVM) fel offeryn y gellir codi tâl amdano sy'n gallu darparu tystiolaeth ynglŷn â hyfywedd i gefnogi Safleoedd Ymgeisiol a/neu Geisiadau Cynllunio. Byddai'r cynllun peilot cychwynnol yn llywio'r broses o sefydlu gweithdrefn a rhestr taliadau newydd (i roi'r Model i ddatblygwyr a/neu hyrwyddwyr safle), yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

Adroddodd fod y Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau eraill ar draws Rhanbarth y De-ddwyrain i ddatblygu'r offeryn asesu Model Hyfywedd Datblygu (DVM).

Crëwyd y DVM fel model cynhwysfawr, hawdd ei ddefnyddio i asesu hyfywedd ariannol cynigion datblygu. Mae wedi'i seilio ar yr un ymagwedd lwyddiannus a ddefnyddir gan Grŵp Cynllunio Strategol Canolbarth a De-orllewin Cymru. Dywedodd y bydd y model yn cael ei fabwysiadu gan bob awdurdod ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y pen draw ac y bydd ar gael i ddatblygwyr, hyrwyddwyr safle, neu unrhyw unigolyn/sefydliad arall i gynnal arfarniad hyfywedd ariannol o ddatblygiad arfaethedig. Byddai hyn yn rhoi offeryn i hyrwyddwyr safle y gellir ei ddefnyddio i ddangos bod modd darparu safle yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru.

Dywedodd fod y Cyngor yn bwriadu rhyddhau'r DVM i ddatblygwyr a hyrwyddwyr safle ar fformat wedi'i gloi sy'n benodol i safle, gyda chanllaw cysylltiedig i ddefnyddwyr, ar ôl derbyn ffi safonol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir yn Rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin er mwyn bod yn gyson. Amlinellodd y rhestr ffïoedd arfaethedig, y bwriedir iddynt dalu am gostau gweinyddol y Cyngor wrth gloi a dosbarthu'r model, dilysu'r arfarniad wedi'i gwblhau a darparu adolygiad lefel uchel i'r datblygwr/hyrwyddwr y safle. Ni fydd talu ffi yn gwarantu bod safle'n cael ei ddyrannu yn y CDLl Amnewid nac yn arwain yn uniongyrchol at roi caniatâd cynllunio. Dywedodd ar ôl cwblhau'r adolygiad lefel uchel, y bydd y Cyngor yn rhoi datganiad i'r datblygwr/hyrwyddwr y safle i ddangos i ba raddau yr ystyrir bod yr arfarniad a gyflwynwyd yn bodloni'r profion a amlinellwyd. Hysbysodd y Pwyllgor, cyn argymell yr ymagwedd hon yn ffurfiol i'w chymeradwyo gan y Cyngor, y cynigir cynnal cynllun peilot cychwynnol er mwyn profi'r cysyniad, galluogi cyfnod ymgynghori â'r diwydiant tai a rhannu'r canfyddiadau â'r Cyngor.

PENDERFYNWYD: 1. Bod y Pwyllgor yn awdurdodi Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i ymgynghori â'r diwydiant tai a phrofi'r Model Hyfywedd Datblygu (DVM) fel offeryn y gellir codi tâl amdano sy'n gallu darparu tystiolaeth o hyfywedd i gefnogi Safleoedd Ymgeisiol a/neu Geisiadau Cynllunio.

2. Bod y Pwyllgor yn nodi y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn dilyn ymgynghoriad i roi gwybod i'r Cyngor am ganlyniadau'r ymgynghoriad ac, os ystyrir ei bod yn briodol, i ofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r model a'r strwythur codi tâl yn ffurfiol.

402. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:52